



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Grant Cynhyrchu Cynaliadwy

# Llyfryn Rheolau Cyffredinol

Medi 2019

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru –  
Rhaglen Datblygu Gwledig

2014-2020



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar  
gyfer Datblygu Gwledig:  
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig  
European Agricultural Fund for  
Rural Development  
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cynnwys

- 3** Prif Bwyntiau
- 5** Adran A – Cyflwyniad
- 8** Adran B - Pwy sy'n Gymwys am y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy
- 12** Adran C - Gwneud Cais am Grant Cynhyrchu Cynaliadwy
- 18** Adran D - Taliadau
- 21** Adran E - Newidiadau i Reolau'r Cynllun
- 22** Adran F – Archwiliadau a Chadw Cofnodion
- 23** Adran G - Y Drefn Apelio a Chwyno
- 24** Adran H – Amod Diogelu Data Cyffredinol: Hysbysiad Preifatrwydd
- 27** Cysylltiadau

## Prif Bwyntiau

- Mae'r ffurflen Datgan Diddordeb wedi'i datblygu'n ddigidol ac mae ar gael ichi ar RPW Ar-lein. Rhaid cyflwyno'r Datganiad trwy RPW Ar-lein erbyn y dyddiadau cau a gyhoeddir.
- Er mwyn cofrestru'ch busnes am y tro cyntaf, bydd angen ichi lenwi'r [ffurflen gofrestru ar-lein](#). Darllenwch y [canllaw sut i gofrestru](#) am ragor o wybodaeth. Gallwch wneud y rhan fwyaf o'r newidiadau i fanylion eich busnes ar-lein. Ond os byddwch am wneud newidiadau mawr, efallai y bydd Llywodraeth Cymru am ragor o fanylion. Ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 am ragor o fanylion.
- I gael cyngor ar sut i Ddatgan Diddordeb ar-lein yn y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, ewch i [Grantiau a thaliadau gwledig | beta.llyw.cymru](#).
- Mae £8 miliwn ar gael ar gyfer cyllideb y Datganiad o Ddiddordeb hwn yn y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy.
- Pan yn cyflwyno eich Datganiad o Ddiddordeb, mae'n rhaid i chi sicrhau fod o leiaf un aelod o'r busnes, fel y cofrestrir o dan eich CRN gyda Taliadau Gwledig Cymru, wedi mynychu Digwyddiad Ffermio Cynaliadwy. Mae'n rhaid i'r mynychwr sicrhau eu bod wedi cofnodi eu mynychiad wrth ddefnyddio'r CRN a fydd yn cyflwyno'r Datganiad o Ddiddordeb.
- Rhaid i'r busnes sy'n ymgeisio fod wedi'i gofrestru gyda Cyswllt Ffermio cyn bod aelod o'r busnes yn trefnu lle ac yn mynd ar gwrs Sioe Deithiol Ffermio Cynaliadwy.
- Mae'n rhaid i chi ddilyn canllawiau a gofynion Llywodraeth Cymru am Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus Nodiadau Canllaw Technegol trwy'r ddolen ganlynol: <https://beta.llyw.cymru/rhaglen-datblygu-gwledig-2014-2020-canllaw-technegol-tendro-cystadleuol-chaffael-cyhoeddus>.
- Os cawsoch eich dewis yn rowndiau un, dau a thri'r Grant, ni fyddwch yn gymwys i gael eich ystyried ar gyfer rownd hon y Grant. Gall y grant gyfrannu hyd at 40% o werth buddsoddiad cyfalaf mewn offer a pheiriannau fydd wedi cael eu disgrifio ymlaen llaw fel rhai fydd yn helpu'r ffermwr i reoli maethynnau a diogelu a gwella ansawdd dŵr, pridd ac aer trwy leihau llygredd.
  - Y grant mwyaf y gellir ei roi yw £50,000
  - Y grant lleiaf y gellir ei roi yw £12,000

Bydd grant o 40% ar gael ar gyfer prosiectau sy'n costio hyd at £125,000. Cewch Ddatgan Diddordeb mewn swm sy'n fwy na therfyn cost prosiect trwy ychwanegu eitem unigol. Os caiff eich Datganiad o Ddiddordeb ei ddewis, ni chewch hawlio mwy na'r grant mwyaf o £50,000.

- Mae Atodiad A yn rhoi rhestr o'r eitemau buddsoddiad sydd yn gymwys. Gallwch eu gweld ar [Grantiau a thaliadau gwledig | beta.llyw.cymru](http://beta.llyw.cymru)
- Mae dau gam i'r broses ymgeisio. Datganiad o Ddiddordeb sydd yn cael ei gyflwyno drwy RPW Ar-lein, sydd ar agor am gyfnod o 6 wythnos ac, os caiff eich Datganiad o Ddiddordeb ei ddewis, cynhelir arfarniad o'r cynlluniau a'r dogfennau ategol a gyflwynwyd .
- Os caiff eich Datganiad o Ddiddordeb ei ddewis, bydd gofyn ichi gwblhau a chyflwyno'r cynlluniau a dogfennau ategol canlynol ar gyfer arfarniad gan Lywodraeth Cymru.
  - Cynllun Busnes 5 mlynedd
  - Datganiad o'r Meini Prawf Craidd
  - Cynllun Defnyddio Maethynnau'n Effeithiol
  - Cynllun Defnyddio Dŵr yn Effeithiol
  - 3 Blynedd o Gyfrifon Ardystiedig
  - Cymeradwyaeth gan Gorff Cymeradwyo (SAB) Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) os yn briodol<sup>1</sup>
  - Caniatâd Cynllunio, os oes ei angen
  - 3 Dyfynbris ar gyfer pob eitem buddsoddiad a ddewiswyd ar y Datganiad o Ddiddordeb
- Os llwyddwch i gael cynnig contract ar ôl dewis eich Datganiad o Ddiddordeb, a chynnal arfarniad llwyddiannus o'r cynlluniau a'r dogfenau ategol, **bydd rhaid ichi brynu'r holl eitemau buddsoddi sydd wedi'u rhestru yn eich contract.**
- Os cewch gynnig contract a'ch bod yn ei dderbyn a'ch bod yn prynu eitemau o'r teip neu o'r disgrifiad anghywir; neu os byddwch yn prynu eitem cyn ichi dderbyn y contract SPG; neu os nad ydych yn prynu'r holl eitemau a restrir yn y contract, caiff yr hawliad ei wrthod a bydd yn rhaid ichi ad-dalu unrhyw grant sydd wedi'i dalu ichi.
- Mae'r SPG yn rhan o Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020.

---

<sup>1</sup> O'r 7 Ionawr 2019, bydd holl ddatblygiadau newydd ble mae'r ardal adeiladu yn 100 metr sgwâr neu yn fwy angen systemau draenio cynaliadwy (SuDS) i reoli dŵr wyneb ar y safle. Bydd angen eu dylunio i gytuno gyda safonau gorfodol ar gyfer draenio cynaliadwy a gyhoeddwyd gan Gweinidogion Cymru a bydd angen i'r dyluniad gael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Lleol sydd yn gweithredu yn ei rôl o Gorff Cymeradwyo (SAB) SuDS cyn i'r gwaith adeiladu gychwyn.

## Adran A – Cyflwyniad

- Cynllun grant cyfalaf yw'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, sydd ar gael i ffermwyr ym mhob rhan o Gymru.
- Mae'r Canllaw hwn yn esbonio'r **Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (SPG)** a'r broses ar gyfer ymgeisio amdano. Darllenwch e'n ofalus. Os ydych yn credu y gallai'ch cynlluniau buddsoddi fod yn gymwys am grant a'ch bod am wneud cais am help o dan y cynllun hwn, darllenwch **Adran C** a'r llyfryn Sut i Lenwi yn [Grantiau a thaliadau gwledig | beta.llyw.cymru](#)
- Er gwybodaeth y mae'r canllaw hwn ac mae'n esbonio sut y mae'r cynllun yn cael ei redeg. Gallai'r amodau newid.
- Mae'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (SPG) yn elfen bwysig o Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Cafodd y cynllun hwn ei ddylunio i helpu ffermwyr i wella perfformiad economaidd ac amgylchedd eu daliad amaethyddol yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru a'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru i gael busnesau fferm mwy cynaliadwy, proffidiol a chydnerth.
- Bwriad Llywodraeth Cymru, trwy'r SPG, yw adolygu perfformiad y cynllun yn rheolaidd a gwerthuso'r amodau a osodir ym mhob rownd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i'r diwydiant a'r busnesau unigol, ac i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru.
- Mae achosion o lygredd ar ffermydd sy'n effeithio ar ansawdd dŵr a bywyd gwyllt wedi cynyddu'n ddiweddar, yn aml yn sgil camreoli storfeydd slyri a chyfleusterau trin dŵr budr a llygreddau aer. Targed y rownd hon yw helpu ffermwyr i gyflawni'u hamcanion o ran rheoli maethynnau'n well yn ogystal â diogelu a gwella ansawdd dŵr, pridd ac aer trwy leihau llygredd.
- Mae'r cynllun yn un dewisol. Mae swm y grant a gaiff ei gynnig yn adlewyrchu amgylchiadau'r unigolyn ac y bydd wastad y lleiaf sydd ei angen er mwyn i'r buddsoddiad allu mynd yn ei flaen.

## Amcanion y Cynllun

### Dyma amcanion y Cynllun:

- Rheoli maethynnau'r fferm yn well
- Diogelu a gwella ansawdd dŵr, pridd ac aer
- Defnyddio dŵr yn fwy effeithiol ar y fferm
- Defnyddio adnoddau'r fferm yn fwy effeithlon.

Mae'r SPG yn fuddsoddiad cyfalaf mewn offer a pheiriannau fydd wedi cael eu disgrifio ymlaen llaw i fynd i'r afael ag effeithiau llygredd ar y fferm gan gynnig manteision clir ac amlwg i'ch menter fferm a'r amgylchedd ehangach.

Bydd gofyn i geisiadau am yr SPG fodloni amcanion strategol a thematig Llywodraeth Cymru.

Rhaid i weithgareddau o dan yr SPG fynd i'r afael **ag o leiaf un** o Flaenoriaethau a Meysydd Ffocws Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020:

## **Blaenoriaeth 2**

Gwneud pob math o amaethyddiaeth yn fwy cystadleuol a ffermydd yn fwy hyfyw:

Maes Ffocws 2a - hwyluso'r gwaith o ailstrwythuro ffermydd sy'n wynebu problemau strwythurol mawr, yn enwedig ffermydd nad ydynt yn cyfrannu llawer at y farchnad, ffermydd sy'n canolbwyntio ar y farchnad mewn sector penodol a ffermydd sydd angen arallgyfeirio.

## **Blaenoriaeth 5**

Hyrwyddo defnydd effeithiol o adnoddau a chefnogi'r symudiad at economi carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd, yn y sector amaeth, y sector bwyd a'r sector coedwigaeth;

Maes Ffocws 5a - helpu'r diwydiant amaethyddol i ddefnyddio dŵr yn fwy effeithlon

Maes Ffocws 5b - helpu'r diwydiant amaethyddol a'r diwydiant prosesu bwyd i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon

Maes Ffocws 5d - helpu'r diwydiant amaethyddol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwyrdr.

## **Themâu a meysydd trawsbynciol**

Mae'r eitemau cyfalaf a'r gweithgareddau sydd yn gymwys yn y cyfnod ymgeisio hwn yn cefnogi'r thema rheoli pridd a chnydau a'r tri maes trawsbynciol: Defnyddio Maethynnau'n Effeithiol, Defnyddio Ynni'n Effeithiol, Defnyddio Dŵr yn Effeithiol

---

*Mae'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy wedi'i gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd. Caiff unrhyw newidiadau eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ([www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)) a GWLAD Ar-lein ([www.gwladarlein.org](http://www.gwladarlein.org)) a phan welwn fod angen, byddwn yn cysylltu'n uniongyrchol â chi.*

*Ariennir y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy gan Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd i ffurfio rhan o raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020.*

*Rheolir y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy gan Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014 rhif 3222(Cy327); Rheoliadau'r Cyngor (UE) rhif 1305/2013, 1303/2013 a 1306/2013; Rheoliadau Gweithredu (UE) y Comisiwn rhif 808/2014 ac 809/2014 a Rheoliadau Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 640/2014 ac 807/2014 (fel y gallent gael eu newid o dro i dro). Cewch gopiâu o'r Rheoliadau hyn ar wefan EUR-Lex ([eur-lex.europa.eu](http://eur-lex.europa.eu)) neu gallwch ofyn i Ganolfan Gyswilt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru am gopi.*

*Nid yw Erthyglau 107, 108 nac 109 y TFEU yn berthnasol i'r grantiau a ddarperir o dan y cynllun hwn os cawsant eu gwneud yn unol â Rheoliad (UE) rhif 1305/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor (Rheoliadau Datblygu Gwledig), ac o fewn cwmpas Erthygl 42 y TFEU.*

*Mae Erthygl 42 y TFEU yn ymwneud â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu cynnyrch amaethyddol cynradd.*

*Bydd y Grantiau a ddarperir o dan y cynllun hwn yn cydymffurfio â'r cyfraddau ymyrryd a'r terfynau cymorth yn unol ag Atodiad II y Rheoliadau Datblygu Gwledig.*

## Adran B - Pwy sy'n Gymwys am y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy

### I fod yn gymwys:

- Byddwch wedi'ch cofrestru gyda Llywodraeth Cymru ac wedi cael Cyfeirnod Cwsmer (CRN). Byddwch wedi'ch cofrestru gydag RPW Ar-lein. Er mwyn cofrestru manylion eich busnes am y tro cyntaf, rhaid ichi lenwi'r [ffurflen gofrestru ar-lein](#). Darllenwch y [canllaw sut i gofrestru](#) am ragor o wybodaeth. Gallwch wneud y rhan fwyaf o'r newidiadau i fanylion eich busnes ar-lein. Ond os byddwch am wneud newidiadau mawr, efallai y bydd Llywodraeth Cymru am ragor o fanylion. Ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 am ragor o wybodaeth.
- Bydd eich Datganiad o Ddiddordeb yn gymwys ar gyfer yr SPG os bydd un o aelodau'r busnes sy'n Datgan Diddordeb wedi bod ar gwrs Sioe Deithiol Ffermio Cynaliadwy Cyswllt Ffermio.
- Bydd o leiaf un aelod o'r busnes sy'n ymgeisio am gael cofrestru gyda Cyswllt Ffermio wedi trefnu lle ac wedi bod ar gwrs Sioe Deithiol Ffermio Cynaliadwy Cyswllt Ffermio. Rhaid ichi gofrestru a/neu drefnu lle cyn bod y cwrs yn cael ei gynnal naill ai trwy wefan Cyswllt Ffermio neu drwy ffonio Canolfan Gwasanaethau Cyswllt Ffermio ar 08456 000 813.
- Os ydych yn ymgeisio fel Ffermwr Organig, bod eich busnes wedi ei ardystio gan gorff rheoli organig
- Eich bod yn **Gynhyrchydd** cynnyrch amaethyddol **Cynradd**. Mae'r cynllun ar agor i Ddatganiadau o Ddiddordeb oddi wrth ystod eang o Fusnesau sydd yn ymwneud â chynhyrchu cynhyrchion amaethyddol cynradd, megis:
  - masnachwyr unigol
  - mudiadau gwirfoddol
  - cwmnïau cyfyngedig preifat a chyhoeddus, Mentrau Bach a Chanolig (BBaCh) a Busnesau Mawr
  - busnesau fferm a chwmnïau cydweithredol
  - busnesau newydd, gan gynnwys busnesau sy'n dechrau.

Gall busnesau sy'n ymwneud â chynhyrchu cynhyrchion amaethyddol cynradd fod yn perthyn i'r sectorau canlynol:

- cnydau âr
- eidion
- llaeth



- geifr
- garddwriaeth (gan gynnwys hydroponeg ac acwaponeg)
- moch
- dofednod
- defaid

### **Cymhwyster Grŵp**

Caiff grŵp o ffermwyr gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy. I wneud hyn, mae angen i'r holl ffermwyr sydd yn rhan o'r grŵp fodloni'r amodau cymhwyster uchod. Yn ogystal, mae'n rhaid i'r grŵp fod wedi cofrestru gyda Llywodraeth Cymru ac wedi cael Cyfeirnod Cwsmer (CRN) ar gyfer y grŵp. Bydd rhaid i'r Datganiad o Ddiddordeb gael ei gyflwyno o dan y CRN a godwyd ar gyfer y grŵp.

### **Nid ydych yn gymwys:**

- os ydych yn gwsmer sy'n cadw ceffylau (gan gynnwys pori ceffylau)
- os ydych yn gwsmer Coedwigaeth (gan gynnwys pobl sy'n berchen ar goetir yn unig)
- os cawsoch eich dewis yn rowndiau un, dau neu dri'r Cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy
- os ydych yn defnyddio'r cyfarpar cyfalaf ar gyfer ei gontractio neu ei lesio

### **Pa Weithgareddau sy'n Gymwys**

#### **Gweithgareddau Cymwys**

Mae'r SPG yn cefnogi buddsoddiadau gweladwy ar gyfer cynhyrchu'r cynhyrchion amaethyddol a restrir yn Atodiad 1 Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (TFEU) neu gotwm ond nid cynnyrch pysgodfeydd.

#### **Gweithgareddau Anghymwys**

Mae nifer o fuddsoddiadau nad ydynt yn gymwys am yr SPG:

- buddsoddiadau i brynu eitemau newydd yn lle rhai a brynwyd yn y gorffennol gyda chymorth grant yr UE neu Lywodraeth Cymru (o fewn yr un busnes)
- ailwampio safleoedd a/neu gyfarpar i fodloni gofynion sy'n deillio o gamau gorfodi statudol

- gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu cynnyrch amaethyddol cynradd nad ydynt yn cael eu cynnal gan y cynhyrchydd cynradd e.e. contractio neu lesio amaethyddol

## **Buddsoddiadau sy'n Gymwys am Gymorth**

Dim ond eitemau a restrir yn y Rhestr o Eitemau Cyfalaf Cymwys yn Atodiad A, sydd ar gael ar [Grantiau a thaliadau gwledig | beta.llyw.cymru](#) fydd yn gallu cael taliad o dan yr SPG a rhaid iddynt fodloni'r manylebau a ddisgrifir.

Mae offer ail law'n gymwys (ar gyfer BBaChau yn unig) os gall yr ymgeisydd brofi'r canlynol:

- bod yr offer yn bodloni'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch
- ei fod yn ateb y gofyn ac
- y disgwylir iddo allu para o leiaf pum mlynedd arall.

## **Costau Anghymwys**

Os gwelir ichi ddechrau'r gwaith cyn ichi dderbyn y contract SPG, bydd Llywodraeth Cymru un ai yn gwrthod y gwaith a ddechreuwyd ac yn gadael i'r ymgeisydd barhau â rhan gymwys y contract, neu'n gwrthod y cais cyfan ac yn tynnu'r gymeradwyaeth yn ôl.

Dyma enghreifftiau o ddechrau gwaith :

- Gwneud contract rhwymol (h.y. gydag adeiladwr neu gyflenwr ac ati.)
- Prynu offer /nwyddau neu'u cymryd ar eich safle
- Os byddwch yn talu blaendal neu'n ysgwyddo gwariant mewn cysylltiad â'r cais, byddwch, yng ngolwg Llywodraeth Cymru, wedi dechrau'r gwaith cyn i'r grant gael ei gymeradwyo.

## **Cyfradd a Throthwy Uchaf y Grant**

- Y grant fydd cyfanswm cyfraniad y sector cyhoeddus at y prosiect buddsoddi, a bydd yn cynnwys: arian oddi wrth yr UE; cyllid ar y cyd gyda'r UE oddi wrth Lywodraeth Cymru; arian oddi wrth adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth, cyrff cyhoeddus anadrannol ac awdurdodau lleol; arian oddi wrth gyrff a reolir gan y llywodraeth fel y Gwasanaeth Busnesau Bach a'r Loteri Genedlaethol;
- Os ceir arian o gronfeydd cyhoeddus eraill yr UE neu'r DU i helpu gyda chostau prosiect, byddwn yn tynnu'r swm hwnnw o'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy.

- Y grant mwyaf y gellir ei roi yw **£50,000**.
- Y grant lleiaf y gellir ei roi yw **£12,000**
- Gall y grant gyfrannu hyd at 40% o werth buddsoddiad cyfalaf mewn offer a pheiriannau fydd wedi cael eu disgrifio ymlaen llaw fel rhai fydd yn dod â budd clir a mesuradwy i fenter y fferm.
- Bydd grant o 40% ar gael ar gyfer prosiectau sy'n costio hyd at £125,000. Cewch Ddatgan Diddordeb mewn swm sy'n fwy na therfyn cost prosiect trwy ychwanegu eitem unigol. Os caiff eich Datganiad o Ddiddordeb ei ddewis, ni chewch hawlio mwy na'r grant mwyaf o £50,000.

# Adran C - Gwneud Cais am Grant Cynhyrchu Cynaliadwy

## Cyflwyno ffurflen Mynegi Diddordeb

### Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein

Rhaid Datgan Diddordeb yn y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy trwy Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein. Os oes gennych Gyfeirnod Cwsmer (CRN) eisoes, fe ddylech fod wedi cael llythyr gyda'ch Cod Defnyddio arno ichi allu agor cyfrif. Os ydych wedi'i golli, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 (Llun – Iau 8:30am – 5.00pm, Gwener 8:30am – 4.30pm) a rhoi'ch CRN i'r cysylltydd. Caiff Cod Defnyddio newydd ei anfon atoch.

Ar ôl ichi gofrestru, gallwch fynd yn syth i'ch cyfrif RPW Ar-lein o [www.cymru.gov.uk/rpwarlein](http://www.cymru.gov.uk/rpwarlein). Fe welwch ffurflen Datgan Diddordeb y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy yn yr adran Ceisiadau a Hawliadau

Os oes gennych asiant yn gweithio ar eich rhan, bydd gofyn iddo gofrestru fel asiant ar RPW Ar-lein. Os nad yw wedi gwneud eto, dylai lenwi'r ffurflen Manylion Asiant / Undeb Ffermwyr (Cymru) ar unwaith. Mae copi o'r ffurflen ar gael ar [www.cymru.llyw/rpwarlein](http://www.cymru.llyw/rpwarlein). Ar ôl i'r ffurflen ein cyrraedd, byddwn yn anfon CRN Asiant ato a Chod Defnyddio RPW Ar-lein. Bydd gofyn llenwi Ffurflen Ganiatâd Cymdeithasau hefyd i gytuno ar rolau'r cleient. Cedwir copi o'r ffurflen hon ar [www.cymru.llyw/rpwarlein](http://www.cymru.llyw/rpwarlein)

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gofrestru ar RPW Ar-lein neu am Ddatgan Diddordeb, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004. Byddan nhw'n gallu'ch cynghori a rhoi gwybod ichi ble gallwch fynd am help digidol.

Am fwy o wybodaeth ar RPW Ar-lein, sut i gyflawni Datganiad o Ddiddordeb yn SPG a'r buddsoddiadau sydd ar gael a manylion gofynnol SPG cyfeiriwch at ganllawiau SPG ar [Grantiau a thaliadau gwledig | beta.llyw.cymru](http://Grantiau a thaliadau gwledig | beta.llyw.cymru)

### Cwblhau'r Datganiad o Ddiddordeb

Wrth lunio'r Datganiad o Ddiddordeb, fe fydd angen i chi ddewis o restr o eitemau cyfalaf buddsoddi cymwys a darparu amcangyfrif o gost pob eitem a ddewisir. Y grant mwyaf y gellir ei gymeradwyo yw £50,000. Hyd yn oed os bydd gwerth y Datganiad o Ddiddordeb yn fwy na hynny, caiff y grant ei gapio i £50,000.

Rydym yn eich cynghori i gael dyfynbris ar gyfer pob eitem yn eich Datganiad o Ddiddordeb. Os gaiff eich Datganiad o Ddiddordeb ei ddewis, ni fydd unrhyw grant a roddir ichi'n fwy na'r swm a nodwch yn eich Datganiad o Ddiddordeb neu'r cap o £50,000.

Unwaith y bydd y Datganiad o Ddiddordeb wedi'i gyflwyno, ni ellir newid yr eitemau a ddewiswyd.

## Y Broses Sgorio a Dewis

Mae pob eitem cyfalaf a restrir yn Atodiad A wedi cael sgôr yn ôl tair o'r themâu:

- Defnyddio Maethynnau'n Effeithiol
- Defnyddio Ynni'n Effeithiol a;
- Defnyddio Dŵr yn Effeithiol

Dangosir y sgôr yn Atodiad A - Rhestr o'r Eitemau Buddsoddi Cyfalaf Cymwys wrth bob eitem unigol. Ewch i RPW Ar-lein i'w gweld [Grantiau a thaliadau gwledig | beta.llyw.cymru](#).

Pwrpas y broses sgorio yw gallu rhoi'r Datganiadau o Ddiddordeb yn eu trefn yn ôl faint o arian sydd ar gael ym mhob cyfnod ymgeisio.

Un o ofynion y Comisiwn Ewropeaidd yw na ddylid dewis prosiectau Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 o dan system y cyntaf i'r felin. Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, y bwriad yw y bydd cynlluniau Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 yn agor a chau ar gyfer ceisiadau bob hyn a hyn drwy gydol oes y rhaglen newydd, gan ddibynnu ar y dyraniadau ariannol a fydd ar gael i'r rhaglen.

Fel rhan o broses ddewis y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, byddwn yn asesu pob prosiect Gwaith Cyfalaf y bydd busnesau ffermio yn Datgan Diddordeb i'w cynnal. Caiff sgôr ei roi i bob prosiect a restrir ar y Datganiad o Ddiddordeb ar sail ei allu i sicrhau canlyniadau sy'n bodloni amcanion yr SPG.

Caiff y Datganiadau o Ddiddordeb eu sgorio a'u rhoi yn eu trefn yn unol â'r meini prawf sgorio. Mae'r system sgorio'n cymryd cyfanswm sgoriau'r eitemau rydych wedi gwneud cais amdanynt (fel ag sydd yn Atodiad A) ac yn rhannu'r sgôr hwnnw â'r amcangyfrif o werth grant eich Datganiad o Ddiddordeb, sy'n seiliedig ar amcangyfrif o'ch costau. Dyna wedyn fydd eich sgôr derfynol.

Er mwyn cael eich ystyried ar gyfer eich dewis, rhaid bod gan eich Datganiad o Ddiddordeb sgôr o fwy na 0.0001.

Fe gewch eich hysbysebu os bydd eich Datganiad o Ddiddordeb wedi ei ddewis ai pheidio drwy'ch cyfrif RPW Ar-lein.

### **Datganiadau o Ddiddordeb llwyddiannus – Cyflwyno eich Cynlluniau a Dogfennau ar gyfer eu harfarnu**

Os caiff eich Datganiad o Ddiddordeb ei ddewis, bydd rhaid i chi ei ddebyn neu ei wrthod a dychwelyd Atodiad y Cais a fydd ynghlwm wrth y llythyr sy'n eich hysbysu eich bod wedi'ch dewis i Lywodraeth Cymru drwy eich cyfrif RPW Ar-lein erbyn y dyddiad a nodir yn y llythyr.

Os byddwch yn ei dderbyn, bydd angen i chi roi manylion penodol am eich busnes a'ch cynigion buddsoddi. Mae canllawiau ar gyfer y cynnwys a'r fformat sydd eu hangen yn [Grantiau a thaliadau gwledig | beta.llyw.cymru](https://beta.llyw.cymru). Er mwyn helpu ymgeiswyr i baratoi a llenwi'r dogfennau'n iawn i gefnogi'u cais, mae manylion trefniadau arfarnu a dilysu technegol Llywodraeth Cymru ar gael yn <https://beta.llyw.cymru/grant-cynhyrchu-cynaliadwy-canllaw-dogfennau-ategol>

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn y canllawiau gan y gallai peidio â gwneud hynny arafu'r arfarniad.

Y cynlluniau a'r dogfennau sydd yn ofynnol i'w cwblhau a'u cyflwyno yw:

- Cynllun Busnes 5 mlynedd
- Datganiad Meini Prawf Craidd
- Cynllun Defnyddio Maethynnau'n Effeithiol
- Cynllun Defnyddio Dŵr yn Effeithiol
- 3 dyfynbris ar gyfer pob eitem buddsoddi a ddewiswyd ar eich Datganiad o Ddiddordeb
- 3 mlynedd o gyfrifon ardystiedig
- Cymeradwyaeth gan Gorff Cymeradwyo (SAB) Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) os yn briodol
- Caniatâd Cynllunio os yn briodol

### **Cynllun Busnes 5 mlynedd**

Rhaid ichi ddarparu'ch cynllun eich hun neu fe allech holi ymgynghorydd i baratoi cynllun ar eich rhan. Gallech wneud hynny trwy Cyswllt Ffermio ar y ddolen isod <https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/cynllunio-busnes-0>

Bydd gofyn i'ch cynllun busnes ddangos y gall eich busnes lwyddo a bod y buddsoddiad a gynigir yn un dilys. Rhaid iddo fod yn un holistig ar gyfer y busnes cyfan ac ni ddylai ganolbwyntio'n llwyr ar y grant cyfalaf y gofynnir amdano.

### **Datganiad o'r Meini Prawf Craidd a'r Cynlluniau Defnyddio Maethynnau a Dŵr yn Effeithiol**

Mae ffurflen ar gael ar y ddolen hon [Grantiau a thaliadau gwledig | beta.llyw.cymru](https://beta.llyw.cymru) ichi gael rhoi manylion y Meini Prawf a'ch cynlluniau Defnyddio Maethynnau a Dŵr yn Effeithiol. Gofalwch eich bod yn ateb pob adran.

Bydd y Datganiad Meini Prawf Craidd yn gofyn am fanylion ynghylch y canlynol:

- Ariannol a Chydymffurfio
- Cyflawni
- Rheoli'r Gwaith
- Gwerth am yr Arian
- Dangosyddion a Chanlyniadau
- Addasrwydd y Buddsoddiad
- Themâu Trawsbynciol
- Cynaliadwyedd Tymor Hir

Rhaid i'r Cynllun Defnyddio Maethynnau'n Effeithiol ddangos sut y bydd y buddsoddiad yn gwella'r ffordd y rheolir maethynnau ar y fferm yn ogystal ag effaith hynny ar Nwyon Tŷ Gwyr.

Rhaid i'r Cynllun Defnyddio Dŵr yn Effeithiol ddangos beth yw'r gofynion am ddŵr ar hyn o bryd a chost hynny i'r ffermwr, a sut y bydd y buddsoddiad cyfalaf yn eich helpu i ddefnyddio dŵr yn fwy effeithiol.

### **3 Dyfynbris ar gyfer pob Eitem Buddsoddi**

Rhaid ichi gyfeirio at Ganllaw a Gofynion Llywodraeth Cymru o ran Caffael Cyhoeddus a Thendro Cystadleuol sydd ar gael trwy'r ddolen hon.

<https://beta.llyw.cymru/rhaglen-datblygu-gwledig-2014-2020-canllaw-technegol-tendro-cystadleuol-chaffael-cyhoeddus>

Bydd gofyn ichi gael a chyflwyno 3 dyfynbris gwahanol ar gyfer pob buddsoddiad a dewis un fel yr un rydych chi'n ei ffafrio ar gyfer y buddsoddiad.

Dim ond un dyfynbris sydd ei angen pan fydd y pryniant o dan £5,000.

Gofalwch fod y dyfynbrisiau'n cael eu cyflwyno erbyn y dyddiad a nodir ar lythyr eich dewis.

### **3 Blynedd o Gyfrifon Ardystiedig**

Darparwch gopi o'ch cyfrifon ar gyfer y tair blynedd diwethaf.

**Cymeradwyaeth gan Gorff Cymeradwyo (SAB) Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS)**

Os yw eich buddsoddiad angen cymeradwyaeth SAB, sydd heb gael ei arlwygo eto, bydd angen i chi gyflwyno unai dogfennau cymeradwyo'r SAB neu debynneb gan eich SAB lleol fod y cais am gymeradwyaeth wedi cael ei gyflwyno. Am arolwg ar gyfer beth sydd angen cymeradwyaeth SAB acanllawiau mwy manwl ewch at wefan Llywodraeth Cymru yma: <https://gweddiill.gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/flooding/drainage/?skip=1&lang=cy>

Ni fydd taliad o unrhyw grant yn gael ei wneud nes fod dogfennau cymeradwyo SAB wedi cael eu cyflwyno a'u gwirio gan Llywodraeth Cymru.

Os yw'r SAB lleol yn ystyried nad oes angen SuDS ar y prosiect, fe fydd angen i chi gyflwyno tystiolaeth oddi wrth y SAB i gadarnhau hyn. Tra bod cymeradwyaeth SAB yn annibynnol i ganiatâd cynllunio, fe fydd y dystiolaeth yr ydych yn cyflwyno yn cael ei asesu gan y tîm gwerthuso mewn modd sydd yn gyson a'u prosesau sydd yn ymwneud a chaniatâd cynllunio (gweler isod).

Fe fydd rhai ceisiadau ar gyfer adeiladu gyda goblygiadau draenio sydd angen cymeradwyaeth gan y SAB efallai ddim angen caniatâd cynllunio gan yr awdurdod cynllunio lleol (er enghraifft, datblygiadau a ganiateir llai na 100 metr sgwâr). Ni ddylid felly tybio fod y diffyg angen am ganiatâd cynllunio yn negyddu'r angen am gymeradwyaeth SAB.

## **Caniatâd Cynllunio**

Os oes angen caniatâd ar eich buddsoddiad ac nad ydych wedi'i gael eto, bydd gofyn ichi gyflwyno naill ai dogfennau cymeradwyo'r cynllun neu dderbynneb gan eich awdurdod cynllunio lleol i gadarnhau bod y cais cynllunio wedi'i gyflwyno.

Ni chaiff eich grant ei dalu ichi nes bod holl ddogfennau cymeradwyo'r cynllun wedi'u cyflwyno a'u dilysu gan Lywodraeth Cymru.

Os barnodd yr awdurdod cynllunio nad oes angen caniatâd cynllunio ar eich prosiect, bydd angen tystiolaeth arnom gennyhych o hynny.

Caiff y dogfennau hyn eu hasesu gan y tîm asesu yn ôl:

- eich gallu i gyflawni amcanion y cynllun,
- elw economaidd ac amgylcheddol y buddsoddiad; ac
- i ba raddau y mae angen y prosiect ar y busnes, yn unol â rheolau cymhwysedd y cynllun

Bydd yr asesiad yn cynnwys arfarniad llawn o ddiwydrwydd dyladwy a gwiriadau cymhwysedd, a dim ond ar ôl i'r rhain gael eu cwblhau y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud o ran cynnig grant.

Nid oes gwarant y caiff y cynnig grant ei gymeradwyo. Bydd angen o leiaf 90 diwrnod o waith ar ôl i'ch cynlluniau a'ch dogfennau ddod i law, i gynnal yr arfarniad. Ni fydd yr arfarniad yn dechrau nes bod Llywodraeth Cymru wedi cael yr HOLL ddogfennau ategol.



## Arfarniad Llwyddiannus

Os bydd yr arfarniad yn llwyddiannus, byddwn yn cynnig contract SPG ichi trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein. Bydd angen ichi naill ai dderbyn neu wrthod y cynnig hwn o contract trwy bwyso'r botwm Gwrthod/Derbyn glas ar eich cyfrif RPW o fewn 30 diwrnod. Os na fyddwch wedi derbyn y contract o fewn 30 diwrnod, caiff y cynnig o contract ei dynnu'n ôl.

Os fyddwch yn derbyn eich cynnig o contract fe fydd hefyd angen i chi gwblhau proffil trosglwyddo i gadarnhau'r mis a'r flwyddyn a fyddwch yn bwriadu cyflwyno eich hawliad ar gyfer pob eitem buddsoddiad a gymeradwywyd ar eich contract.

## Dechrau Ar y Gwaith

Peidiwch â dechrau ar y gwaith nes ichi dderbyn y contract. Os gwnewch chi gychwyn y gwaith, gwnaiff Llywodraeth Cymru un ai gwrthod y gwaith sydd wedi'i ddechrau, neu ddiddymu'r contract a gofyn ichi dalu unrhyw arian a dalwyd ichi yn ôl.

Mae angen i chi bwrcasu a hawlio am yr holl o'r eitemau ar eich contract drwy eich cyfrif RPW Ar-lein o fewn dwy flynedd o'r cynnig o contract.

## Tynnu'n ôl neu Beidio â Bwrw Ymlaen â'ch Dewis

Ar ôl ichi gael eich dewis, os byddwch chi'n penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'ch contract neu os na fyddwch wedi derbyn y cynnig o fewn yr amser a ganiateir, ni chewch wneud cais am SPG mewn unrhyw gyfnod ymgeisio arall yn y dyfodol.

Os byddwch chi'n dewis gadael y contract cyn cwblhau'r gwaith neu os na fyddwch yn cwblhau'r holl waith a gymeradwywyd yn eich contract, ni chewch wneud cais am SPG mewn unrhyw gyfnod ymgeisio arall, ac efallai y bydd gofyn ichi ad-dalu unrhyw arian sydd wedi'i dalu ichi.

Rhaid ichi brynu'r **holl** eitemau sydd ar eich contract a'u hawlio trwy'ch cyfrif RPW ar-lein o fewn **dwy flynedd** ar ôl cynnig y contract ichi.

## Amodau Rhoi Cymorth:

- Gwneir y dyfarniad ar sail datganiadau a wnaed gennych chi neu'ch cynrychiolwyr ar y ffurflen gais a'r ffurflen hawlio ac yn yr ohebiaeth a gafwyd wedi hynny.
- Rhaid ichi gadw at unrhyw ymrwymadau cyfreithiol a osodir arnoch o dan gyfraith yr UE neu'r DU, gan gynnwys deddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid neu blanhigion.
- Ni chewch newid prosiect, gan gynnwys lleoliad y gweithgarwch, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw Llywodraeth Cymru.

- Ni chewch waredu, trosglwyddo na gwerthu unrhyw offer a/neu adeiladau a brynir gyda chymorth y grant heb gael cydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw Llywodraeth Cymru, yn ystod cyfnod cynnal y prosiect nac am bum mlynedd wedi dyddiad gorffen y prosiect.
- Mae'n rhaid i'r ymgeisydd gydymffurfio â'r rheolau ar wariant cymwys yn unol â'r manylion yn y nodyn yng Nghanolllaw'r Cynllun.
- Mae'n rhaid i chi gadarnhau nad oes unrhyw rai o'r eitemau sy'n rhan o'r cais yn eitemau a brynwyd yn lle eitemau eraill o dan hawliad yswiriant.
- Mae'n rhaid i chi roi cadarnhad na cheisiwyd unrhyw arian cyhoeddus arall (o ffynonellau yn yr UE nac yn y DU).
- Bydd yn rhaid ichi gadw cofnodion ynghylch ceisio a hawlio'r grant, gan gynnwys anfonebau gwreiddiol a dogfennau cysylltiedig eraill, am o leiaf saith mlynedd ar ôl y dyddiad cymeradwyo.
- Mae'n rhaid i chi ganiatáu i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiwn Archwilio a Llys Archwilwyr Ewrop arolygu'r prosiect. Os gofynnir, rhaid i chi roi gwybodaeth iddynt a/neu adael iddynt weld y dogfennau gwreiddiol sy'n ymwneud â'r prosiect.
- Mae'n rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd a roddir i'r prosiect gyfeirio at y rhan a chwaraewyd gan yr Undeb Ewropeaidd a chan Lywodraeth Cymru wrth ei noddi.
- **Dylech fod yn ymwybodol, os byddwch yn llwyddiannus, fod Llywodraeth Cymru a'r Gymuned Ewropeaidd yn cadw'r hawl i gyhoeddi enw'ch busnes neu gwmni, swm y grant a ddyfarnwyd i chi a chrynodeb o'ch prosiect.**

## Adran D - Taliadau

### Hawliadau

Bydd yn rhaid ichi hawlio'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy trwy'ch cyfrif RPW ar-lein; chewch chi ddim mo'ch talu nes bod eich hawliad wedi cael ei ddilysu'n llwyddiannus.

Er mwyn inni allu talu'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy ichi, rhaid ichi fod wedi gwneud y canlynol:

- Byddwch wedi derbyn contract y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy a gynigiwyd ichi o fewn 30 niwrnod calendr ar ôl dyddiad ei gynnig a byddwch yn cadw at yr holl ofynion.

- Dim ond yr eitemau sydd wedi'u rhestru yn eich contract y byddwch wedi'u prynu, a hynny dim ond ar ôl ichi dderbyn y cynnig o gontract.
- Gofalwch eich bod wedi prynu, gosod a chyflawni **holl** eitemau'r buddsoddiad sydd wedi'u rhestru ar eich contract cyn eich bod yn cyflwyno hawliad.
- Hawlio am yr holl eitemau ar eich contract drwy eich cyfrif RPW Ar-lein o fewn dwy flynedd o gynnig y contract.
- Cyflwynwch hawliad trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein gan ddefnyddio tudalen hawlio Gwaith Cyfalaf o fewn yr amser cau. Ni fydd hawliad yn ddilys nes bod yr holl wybodaeth ategol hefyd wedi'i chyflwyno.
- Cyflwynwch anfonebau'r cyflenwr ar gyfer yr holl eitemau buddsoddi a hawlir. Mae angen i'r anfonebau fod wedi eu derbynnu a'u dyddio gyda'r dyddiad talu a chopi o ddatganiad banc yn dangos fod yr anfoneb wedi ei thalu. Os yw taliad yn cael ei gwneud â siec, mae angen copi wedi ei sganio o'r siec ysgrifenedig cyn iddi gael ei hanfon i'r cyflenwr, yn ogystal â'r datganiad banc.

## Dogfennau Ategol

**Rhaid** ichi gyflwyno anfonebau **a** thystiolaeth o dreuliau ar gyfer pob eitem buddsoddi er mwyn i'ch hawliad fod yn ddilys.

Mae'n rhaid i anfonebau arddangos y gair 'anfoneb' yn glir ar y ddogfen a chynnwys y canlynol:

- rhif adnabod unigryw
- enw, cyfeiriad a manylion cyswllt eich cwmni
- enw a chyfeiriad y cwmni sy'n gyrru'r anfoneb
- disgrifiad glir o beth yr ydych yn talu amdano
- y dyddiad a gafodd y nwyddau neu'r gwasanaeth eu darparu (dyddiad cyflenwi)
- dyddiad yr anfoneb
- y cyfanswm sydd yn cael ei godi
- cyfanswm y TAW os yn briodol
- y cyfanswm sy'n ddyledus

Dylech gyflwyno datganiad banc i gadarnhau'ch gwariant. Os nad yw gwerth y pryniant yn cyfateb i werth yr anfoneb (er enghraifft, os ydych wedi prynu eitemau sydd ddim yn gysylltiedig â'r prosiect o'r un cyflenwr) bydd angen manylion y taliad cyfan gyda'r anfonebau ategol.

Os ydych yn talu â siec, bydd angen sgan o'r siec ysgrifenedig, cyn iddi gael ei chyflwyno i'r cyflenwr, yn ogystal â'r datganiad banc.

Gallwch gyflwyno'r anfonebau a thystiolaeth o dreuliau trwy eu sganio a'u hanfon trwy "Fy Negeseuon" yn eich cyfrif RPW Ar-lein neu drwy roi'r anfonebau gwreiddiol/datganiadau banc i'ch Swyddfa Ranbarthol agosaf.

## **Hawlio ar gam a chosbau**

Eich cyfrifoldeb chi yw gofalu'ch bod yn hawlio taliad yn unig ar gyfer yr eitemau buddsoddi a ddisgrifir a'u cymeradwyo yn eich contract.

Ni fydd eich hawliad yn gymwys os:

- ydych yn prynu eitemau buddsoddi o fath anghywir neu sydd â manyleb wahanol; neu
- os ydych yn prynu eitemau cyn ichi dderbyn y contract; neu
- os nad ydych wedi prynu'r holl eitemau yn y contract.

Os yw'r hawliad yn anghywir, fe fydd yr hawliad yn cael ei leihau i'r swm sydd yn gymwys a chaiff y grant i'w dalu ei gyfrif ar sail hynny. Er hyn, os yw'r camgymeriad yn fwy na 10% or cyfanswm a hawliwyd, cewch gosb ariannol.

**Byddwn yn gwrthod eich hawliad cyfan ac os oes grant wedi'i dalu ichi, byddwn yn mynnu'ch bod yn ei dalu yn ôl.**

## **Troseddau**

- Mae Rheoliad 13 o Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014 (Rhif 3222 (Cy.327)) yn pennu troseddau a chosbau mewn perthynas ag elfennau penodol o gyllid datblygu gwledig. Mae'r Rheoliad hwnnw a'r troseddau hynny yn berthnasol i'r Cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy. Mae troseddau'n cynnwys darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol, yn fwriadol neu'n fyrbwyll, mewn perthynas â chyllid datblygu gwledig; rhwystro arolygydd neu swyddog; a gwrthod darparu gwybodaeth ar gais.

## **Monitro Prosiectau**

- Mae'n ofyn gan y Comisiwn Ewropeaidd fod yr holl grantiau yn cael eu monitro a bod eu heffaith ar y busnes yn cael ei mesur.
- Bydd yn ofynnol bod y cyfarpar a brynwyd gyda chymorth y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy yn cael eu cadw yn y fan a'r lle, yn weithredol ac mewn cyflwr da, ac yn cael eu defnyddio at yr un diben ag a amlinellir yn y cais gwreiddiol, am bum mlynedd o ddyddiad y penderfyniad.

- Mae'n rhaid i chi ganiatáu i swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd, neu eu cynrychiolwyr, archwilio'r cyfarpar ar unrhyw adeg resymol o fewn y cyfnod hwnnw o bum mlynedd.

## Adran E - Newidiadau i Reolau'r Cynllun

### Newidiadau i'r Ddeddfwriaeth (gan gynnwys Dehongliadau Newydd)

- Mae Rheoliadau Ewropeaidd yn gallu newid o dro i dro a bydd gofyn ichi gadw at unrhyw newidiadau ar ôl i Lywodraeth Cymru roi gwybod ichi amdanynt.

### Newidiadau i Reolau'r Cynllun

- Weithiau bydd angen newid eich contract, a hynny am nifer o resymau. Er enghraifft, efallai y bydd angen diweddarau'r amodau rheoli iddyn nhw gyd-fynd â'r wybodaeth wyddonol ddiweddaraf, newid rheolau'r cynllun i gyd-fynd â newidiadau yn rhaglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 neu gyfraddau talu newydd. Byddwn yn cyhoeddi unrhyw newidiadau ar wefan Llywodraeth Cymru ([www.cymru.llyw](http://www.cymru.llyw)) a os gwelwn fod angen, byddwn yn ysgrifennu atoch.

## Adran F – Archwiliadau a Chadw Cofnodion

- Mae Llywodraeth Cymru yn gorfod gwneud yn siŵr fod pawb sy'n cymryd rhan yn cadw at reolau'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy. Bydd archwiliadau'n cynnwys archwiliadau fferm.
- Gallem ddewis archwilio'ch cais cyn i'r taliad gael ei wneud neu gallai gael ei archwilio ar ôl inni'ch talu.
- Bydd holl fanylion eich Datganiad o Ddiddordeb, eich Cais, manylion eich hawliad a'r datganiadau a wnaethoch wrth Ddatgan eich Diddordeb a chyflwyno'ch cais a'ch hawliad i gyd yn cael eu archwilio. Bydd hynny'n cynnwys trosiant eich busnes, dyddiad prynu'r cyfarpar, i bwy y rhoddwyd yr anfoneb neu'r anfonebau a manylebau'r cyfarpar (yn ôl y gofyn).

### Archwiliadau Fferm

- Bydd Llywodraeth Cymru a'r cyrff rheoli arbenigol yn gwneud eu gorau i darfu cyn lleied â phosib arnoch wrth archwilio'ch fferm ond weithiau bydd yn rhaid cynnal ambell archwiliad heb rybudd. Mae hi'n bosib y bydd gofyn inni gynnal archwiliadau fwy nag unwaith y flwyddyn.
- Os byddwch yn gwrthod gadael i archwiliad gael ei gynnal neu'n rhwystro archwilydd neu'n gwrthod rhoi help rhesymol iddo, fe gollwch eich taliad a gallech gael eich erlyn.

### Cadw cofnodion

- Bydd angen ichi gadw'r holl gofnodion a gwybodaeth sydd eu hangen arnoch i brofi'ch bod wedi rhoi gwybodaeth gywir a chyflawn inni a'ch bod wedi cadw at eich ymrwymadau.
- Bydd gofyn ichi hefyd:
  - Roi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am eich contract Grant Cynhyrchu Cynaliadwy a hynny o fewn y cyfnod a bennir gan Lywodraeth Cymru
  - Gofalu bod cofnodion, cyfrifon, derbynebau a gwybodaeth arall, gan gynnwys data ar gyfrifiadur, ynghylch eich Bydd gofyn ichi ganiatáu i Lywodraeth Cymru gymryd unrhyw ddogfen neu gofnod i wneud copïau neu i godi darnau ohoni/ohono.

## **Adran G - Y Drefn Apelio a Chwyno**

### **Y Drefn Apelio**

**Ni chewch apelio am fod eich Datganiad o Ddiddordeb yn aflwyddiannus.**

Os caiff cais ei wrthod, caiff y rhesymau dros hynny eu hesbonio'n glir.

**PWYSIG - nid oes amodau force majeure yn y cynllun grant hwn.**

Os ydych chi'n meddwl bod lle i gredu nad ydym wedi dilyn y broses weinyddol yn gywir, cyflwynwch esboniad ysgrifenedig manwl llawn ddim mwy na 60 niwrnod ar ôl dyddiad y penderfyniad drwy eich cyfrif RPW Ar-lein neu ysgrifennwch at y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid (gweler y cyfeiriad yn yr adran cyswllt).

Os bydd y cais wedi'i wrthod, cewch apelio ar ffurf cyflwyniad llafar neu ysgrifenedig i bobl a benodir gan Weinidogion Cymru ond sy'n annibynnol iddynt.

### **Y Drefn Gwyno**

Byddwn yn delio â chwynion yn unol â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gwynion. Cewch ragor o wybodaeth ynghylch sut i wneud cwyn ar wefan Llywodraeth Cymru.

Croeso ichi ysgrifennu hefyd at unrhyw aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol am eich cwyn a gallech gysylltu hefyd â:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru,  
1 Ffordd yr Hen Gae,  
Pen-coed,  
CF35 5LJ



## **Adran H – Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data: Hysbysiad**

### **Preifatrwydd**

Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio sut y bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei mewn cysylltiad â'ch cais am gymorth o dan daliad uniongyrchol y Polisi Amaethyddol Cyffredin a chynlluniau Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014 – 2020. Mae'n esbonio hefyd sut y bydd Llywodraeth Cymru'n prosesu ac yn defnyddio'ch data personol a'ch hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Rheolydd data'r wybodaeth yw Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Swyddog diogelu data yr un wybodaeth yw'r Swyddog Diogelu Data, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Email: [DataProtectionOfficer@gov.wales](mailto:DataProtectionOfficer@gov.wales)

Bydd Llywodraeth Cymru'n prosesu ac yn rheoli'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi iddi yn unol â'i hymrwymadau a'i dyletswyddau o dan y Rheoliadau Ewropeaidd canlynol:

- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 1303/2013
- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 1305/2013
- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 1306/2013
- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 1307/2013
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 640/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 807/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 808/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 809/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 907/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 908/2014
- Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (UE) rhif 679/2016

Bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio gan fwyaf i brosesu am gymorth ariannol. Ond, caiff Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r wybodaeth hefyd at bwrpasau eraill, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau a'i dyletswyddau o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin y Gymuned Ewropeaidd a'i hymrwymadau amgylcheddol statudol. Sail cyfreithiol y prosesu yw bod ei angen i gyflawni tasg a gynhelir wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddir i Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n casglu data personol er mwyn gallu nodi'ch lleoliad chi a busnes eich fferm. Nid yw Llywodraeth Cymru'n casglu data categori arbennig.

Prosesir y data trwy broses wedi'i hawtomeiddio o reolau busnes sy'n defnyddio Cyfeirnod y Cwsmer (CRN) fel allwedd i fwyafrif yr adroddiadau.

Caiff eich gwybodaeth ei storio yn unol â Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn rhif 908/2014, "Conservation of Accounting Information".

## **Rhesymau dros rannu data personol**

O dan ddeddfwriaeth yr UE mae'n rhaid sicrhau bod cynllun yn gymwys, ac er mwyn gwneud hyn caiff Llywodraeth Cymru rannu gwybodaeth â:

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol
- Awdurdodau Lleol Cymru
- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
- DEFRA
- Swyddfeydd Amaeth eraill Llywodraeth y DU
- Awdurdodau rheoleiddio, megis Cyllid a Thollau EM, Awdurdodau Lleol, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd, a'r Heddlu.

Yn benodol, gellir defnyddio'r wybodaeth ar gyfer y canlynol:

- croeswrio gwybodaeth a Thrawsgydymffurfio rhwng sefydliadau'r Llywodraeth er mwyn sicrhau nad oes neb yn torri rheolau cynlluniau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin
- cynhyrchu a chyhoeddi mapiau sy'n dangos y tir sydd wedi cael cymorth o dan gynlluniau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin
- llunio adroddiadau o ddata o wahanol ffynonellau a/neu grynodedau ystadegol, ar gyfer eu cyhoeddi
- llywio penderfyniadau sy'n gysylltiedig â newid polisi a chyllid gan gynnwys astudiaethau sy'n cael eu cynnal ar ran Llywodraeth Cymru i lywio gwaith Monitro a Arfarnu Cynlluniau Datblygu Gwledig
- medru cysylltu â thirfeddianwyr/defnyddwyr mewn argyfwng e.e. rheoli clefydau a rheoli tramgwyddau
- diogelu budd ymgeiswyr mewn cadwraeth tir a materion a all godi yn sgil ymholiadau am ariannu
- caniatáu i bartneriaid allu gwneud eu dyletswyddau cyfreithiol
- ei rhannu ag asiantaethau atal twyll a fydd yn ei defnyddio er mwyn atal twyll a gwyngalchu arian ac er mwyn cadarnhau pwy ydych
- cyhoeddi gwybodaeth benodol ac ymateb i geisiadau am wybodaeth.

## Cyhoeddi a Datgelu Gwybodaeth

Gall aelod o'r cyhoedd ofyn am gael gweld eich gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ryddhau gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch, wrth ymateb i gais o'r fath.

Yn ôl Rheoliad y Comisiwn (CE) rhif 908/2014, rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi manylion y symiau a dalwyd i fuddiolwyr Polisi Amaethyddol Cyffredin. Cyhoeddir data ar gyfer pob buddiolwr ar wefan y gellir chwilio arni, a bydd yn cynnwys enw a lleoliad y ffermwr/rheolwr tir a manylion y symiau ac enw'r cynllun. Ond, ni ddatgelir enwau'r rheini sy'n cael llai na'r hyn sy'n gyfwerth â €1,250 mewn cymorthdaliadau. Cyhoeddir y data bob blwyddyn ar 31 Mai a bydd y data ar gael am ddwy flynedd o'r dyddiad y cawsant eu cyhoeddi. Bydd yr wybodaeth ar gael ar wefan DEFRA.

## Hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Mae'r GDPR yn rhoi hawliau i unigolion mewn perthynas â'r data personol a gedwir amdanynt. Mae'r hawliau hynny'n cynnwys:

- yr hawl i gael gwybod (yr hysbysiad hwn)
- yr hawl i ofyn a chael copïau o'r data personol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanynt, er y gall Llywodraeth Cymru gadw peth data weithiau neu wrthod rhoi copïau
- yr hawl, o dan rai amgylchiadau, i rwystro neu gyfyngu Llywodraeth Cymru rhag prosesu data personol
- yr hawl o dan rai amgylchiadau i ofyn am gywiro gwybodaeth anghywir.
- yr hawl o dan rai amgylchiadau i gael data wedi'u dileu (eu hanghofio)

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau GDPR hyn, cysylltwch â Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad ar ddechrau'r hysbysiad hwn.

Bydd hawl gan unigolion hefyd i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn cadw golwg ar y GDPR, farnu a fyddwn, wrth brosesu'ch gwybodaeth bersonol, yn debygol o gadw at amodau'r GDPR. Cysylltwch â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF  
Ffôn: 01625 545 745 or 0303 123 1113  
Wefan: [www.ico.gov.uk](http://www.ico.gov.uk)

## Cysylltiadau

### Ymholiadau gan Ffermwyr – y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Yn y lle cyntaf, dylai cwsmeriaid sydd am gysylltu â ni ffonio neu e-bostio'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid lle bydd staff wrth law i roi gwybodaeth ac i ateb cwestiynau. Mae'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid yn agored i dderbyn galwadau ffôn rhwng 8.30 y bore a 5 y prynhawn.

Gallwch gysylltu â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid fel a ganlyn:

Ffôn: 0300 062 5004

Cyfeiriad Blwch Swyddfa Bost:  
Taliadau Gwledig Cymru, PO Box 1081,  
Caerdydd, CF11 1SU

### Swyddfeydd Rhanbarthol ac Ardal

ArdalBydd swyddfeydd yn Aberystwyth, Caerfyrddin, Caernarfon a Llandrindod yn agored i ymwelwyr rhwng 9am a 4.30pm, o ddydd Llun hyd ddydd Gwener. Ni fydd y swyddfeydd ardal ar agor mor aml, felly dylai ymwelwyr edrych ar ein gwefan neu ffonio'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 i weld pryd maen nhw ar agor.

Swyddfa Ranbarthol Caernarfon  
Llywodraeth Cymru  
Doc Victoria  
Caernarfon  
Gwynedd LL55 1TH

Swyddfa Ranbarthol Caerfyrddin  
Adeiladau'r Llywodraeth  
Teras Picton  
Caerfyrddin SA31 3BT

Swyddfa Ardal Aberystwyth  
Llywodraeth Cymru  
Rhodfa Padarn  
Llanbadarn Fawr  
Aberystwyth  
Ceredigion SY23 3UR

Swyddfa Ardal y Drenewydd  
Ty Ladywell  
Park Street  
Y Drenewydd SY16 1JB

Swyddfa Ranbarthol Llandrindod  
Adeiladau'r Llywodraeth  
Spa Road East  
Llandrindod LD1 5HA

Swyddfa Ranbarthol Cyffordd  
Llandudno  
Sarn Mynach  
Cyffordd Llandudno  
Conwy LL31 9RZ

Taliadau Gwledig Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Craidd y Gorllewin, 4ydd Llawr  
Parc Cathays  
Caerdydd CF10 3NQ

### Mynediad at swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ag anableddau neu anghenion arbennig

Os oes gennych anghenion arbennig a'ch bod yn teimlo nad yw ein cyfleusterau yn ateb y gofynion, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 i gael swyddogion Llywodraeth Cymru wneud trefniadau addas ar eich cyfer.

### Gwefan Llywodraeth Cymru

I weld yr wybodaeth ddiweddaraf am amaethyddiaeth a materion gwledig, ewch i wefan Llywodraeth Cymru yn: [www.cymru.llyw/cynlluniauamaeth](http://www.cymru.llyw/cynlluniauamaeth). Bydd cyfle ichi gofrestru arni am daflen e-newyddion yr Adran Materion Gwledig fydd yn cael ei hanfon atoch trwy e-bost.

### Gwlad

Gwlad yw cylchgrawn deufisol Llywodraeth Cymru i ffermwyr, busnesau coedwigaeth a phawb sydd â diddordeb mewn ffermio ac yng nghefn gwlad Cymru. Mae'n llawn newyddion, cyngor a gwybodaeth hawdd eu ffeindio a'u deall. Rhifyn Mawrth/Ebrill 2016 o Gwlad oedd yr un olaf ar gopi caled. Wedi hynny, un o'r ffyrdd rydym yn cyfathrebu fydd trwy e-gylchlythyr Gwlad. I sicrhau eich bod yn parhau i glywed am y newyddion a'r datblygiadau diweddaraf gallwch gofrestru i dderbyn yr e-gylchlythyr trwy fynd i: [www.llyw.cymru/news-alerts](http://www.llyw.cymru/news-alerts) [www.llyw.cymru/gwlad](http://www.llyw.cymru/gwlad)